

Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Cyngor Dinas Casnewydd 2017-2022

Gweledigaeth Gymraeg i Gasnewydd

Cyngor Dinas Casnewydd

This document is available in English. Other formats are available on request.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd.....	4
Targed 5 mlynedd er mwyn cynyddu neu gynnal canran y siaradwyr Cymraeg	4
Themâu ac Amcanion y Strategaeth Iaith Gymraeg	5
Y Gymraeg yng Nghasnewydd	6
Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd.....	10
Thema 2: Polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu	12
Thema 3: Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd.....	13
Cynllun Gweithredu	15
Partneriaid Lleol	18
Ymgysylltu	19
Llywodraethu	19
Gweithredu ac Adolygu.....	19
Gwerthuso.....	19

Cyflwyniad

Cymeradwywyd y ddogfen hon ar 4 Ebrill 2017.

Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd hon ar gyfer Casnewydd yn nodi sut y bwriadwn ni, fel awdurdod lleol, hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Cyfrifoldeb Cyngor Dinas Casnewydd yw'r strategaeth hon, ond mae llawer o sefydliadau a phobl eraill yn weithgar wrth ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddinas. Ein rôl ni yw tynnu'r holl ymdrechion hyn ynghyd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Casnewydd. Mae annog pobl yn allweddol i lwyddiant y strategaeth hon, o ran llunio gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg i Gasnewydd ac o ran rhoi'r weledigaeth honno ar waith.

Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl, ac mae'n gynyddol yn dod yn rhan annatod o'n bywydau beunyddiol. Yn 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru (LIC) ei strategaeth, sef 'Miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.' Nod y strategaeth hon yw cefnogi targed uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf drwy osod ein rhai ein hunain ar gyfer Casnewydd, ynghyd â themâu, amcanion a champau gweithredu penodol Casnewydd a ddaeth i'r amlwg o'n hymgyngoriad.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn nod hirdymor. Mae'r cyngor wedi pennu targed pum mlynedd ar gyfer cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen i strategaeth gynhwysfawr gynyddu cyfleoedd pawb i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â mwy na chynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg yng Nghasnewydd. Mae hefyd yn ymwneud ag ysbrydoli a chefnogi dysgwyr Gymraeg a phawb sy'n siarad Gymraeg mewn rhyw ffordd, o'r rhai sy'n gallu dweud 'bore da' i'r rhai sy'n feirdd Gymraeg. Rydym am feithrin hunaniaeth Casnewydd lle mae pobl yn dwlu ar y Gymraeg ac yn teimlo'n hyderus wrth ei defnyddio ym mhob rhan o fywyd.

Er mwyn ein helpu i fodloni ein hamcanion strategol, rydym wedi nodi 3 thema Gymraeg, y mae nifer o amcanion Gymraeg yn sail iddynt. Ynglwm â'r amcanion hyn y mae gweithredoedd sy'n manylu ar y camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r targedau.

Mae'r Cyngor yn destun Safonau'r Gymraeg: rydym yn hyrwyddo ein hunain fel sefydliad dwyieithog sy'n cynnig gwasanaethau dwyieithog. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol ym maes bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Un o 7 nod llesiant y Ddeddf yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae hyn yn golygu bod dyletswydd eisoes ar y cyngor i gyflawni'r nod hwn yn yr hirdymor.

Megis dechrau y mae'r cyngor o ran hybu'r Gymraeg a gweithio mewn partneriaeth er mwyn hybu'r Gymraeg. Caiff y strategaeth hon ei diwygio'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu cynnydd ac er mwyn ymateb i'r agenda Gymraeg genedlaethol. Bydd trefniadau priodol ar waith o ran llywodraethu a chynnwys y gymuned ar gyfer unrhyw newidiadau a wnawn i'r strategaeth.

Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd

'Gall pobl Casnewydd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywyd...'

Targed 5 mlynedd er mwyn cynyddu neu gynnal canran y siaradwyr Cymraeg

Ein targed yw:

Cynyddu nifer y disgyblion yng Nghasnewydd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o 934 yn 2016/17, i 1,250 neu fwy yn 2022/23.

Mae hyn yn cynrychioli twf o 4% o'r boblogaeth oed ysgol i 5%.

Mae hyn yn seiliedig ar lenwi dosbarthiadau derbyn y 3 ysgol gynradd Gymraeg, sef 107 o leoedd y flwyddyn, am y 5 mlynedd nesaf gan ddechrau yn 2017/2018.

Themâu ac Amcanion y Strategaeth Iaith Gymraeg

Rydym wedi nodi 3 thema rydym yn teimlo y bydd yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth iaith Gymraeg ar gyfer Casnewydd. Islaw'r themâu hyn mae 10 amcan a fydd yn ein helpu ymhellach i dargedu ein hymdrechion a mesur ein canlyniadau. Bydd y themâu a'r amcanion hyn yn ein cefnogi i fodloni ein target, sef cynyddu nifer y disgyblion yng Nghasnewydd sy'n cymryd rhan mewn addysg Gymraeg, yn ogystal â'n helpu i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas ei hun.

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Polisi'r Cyngor a Chynllunio'r Gweithlu
3. Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- 1.1 Trosglwyddo iaith mewn teuluoedd
- 1.2 Mynediad i Addysg Gymraeg leol
- 1.3 Cymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch - Sgiliau dwyieithog i bawb
- 1.4 Mynediad i ddysgu Cymraeg i oedolion

2 Polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu

- 2.1 Cynllunio a pholisi iaith
- 2.2 Cymraeg yng ngweithlu'r cyngor

3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd


- 3.1 Defnyddio'r Gymraeg fel dinesydd
- 3.2 Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- 3.3 Defnyddio'r Gymraeg yn ddigidol

Y Gymraeg yng Nghasnewydd

Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghymru, faint sydd yng Nghasnewydd?

Mae setiau data gwahanol ar faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghasnewydd ac mae canlyniadau'r rhain yn amrywio'n fawr. Data'r cyfrifiad a ddyfynnir fynyachaf ac mae'n casglu gwybodaeth gan y boblogaeth gyfan, tra bo setiau data eraill megis Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio samplau llai.

Canran y bobl dros 3 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg ar adeg y Cyfrifiad diwethaf (2011) yng Nghasnewydd oedd 9.3%, o'i chymharu â 19.0% ar gyfer Cymru. Rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, bu gostyngiad 0.7 pwynt canran yng Nghasnewydd. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 1.8 pwynt canran ar gyfer Cymru.



Os edrychwn ar y tabl drosodd, y newyddion da yw bod pob grŵp oedran rhwng 20 a 39 yn dangos cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Mae pob grŵp oedran 40 a throsodd yn dangos gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Mae'n amlwg bod sgiliau Cymraeg yn sylweddol wahanol yn ôl grŵp oedran. Er bod gennym reswm dros amau dilysrwydd data'r cyfrifiad ar blant a phobl ifanc, nid oes gennym sail i amau'r data oedolion.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod data'r Cyfrifiad mewn gwirionedd yn goramcangyfrif nifer y siaradwyr Cymraeg mewn rhai grwpiau oedran yng Nghasnewydd.

Mae'n bosibl bod rhieni wedi goramcangyfrif gallu eu plant i siarad Cymraeg. Llenwodd rhieni'r cyfrifiad yn 2011 gan nodi bod 42% o blant a phobl ifanc rhwng 11 ac 14 oed yn siarad Cymraeg. Y ffigur oedd 46% yn 2001. Wrth olrhain y garfan honno o 2001 i 2011, mae'r ffigur yn gostwng o 46% o blant a phobl ifanc rhwng 10 ac 14 oed i 7.8% o bobl rhwng 20 a 24 oed yn siarad Cymraeg dros ddegawd yn ddiweddarach. Mae'n annhebygol y byddai lefelau sgiliau unigolion yn newid mor sylweddol â hyn dros ddegawd ac mae'n codi amheuaeth ynghylch dilysrwydd y data.

At hynny, mae ffigurau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2011 yn awgrymu mai tua 4% o'r 24,000 o ddisgyblion yng Nghasnewydd a oedd yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn groes i'r ffigur o 34.8% o gyfanswm y plant rhwng 5 a 9 oed y mae cyfrifiad 2011 yn honni eu bod yn siarad Cymraeg o fewn ardal yr awdurdod lleol.

Yn gryno, mae'n debygol bod cyfrifiad 2001 a chyfrifiad 2011 yn goramcangyfrif nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, yn bennaf oherwydd bod rhieni'n goramcangyfrif gallu eu plant.

% y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl oedran				
	2001 %	2011 %	% Gwahaniaeth	
3 – 4 oed	9.2	14.0	+4.8	↑
5 – 9 oed	36.3	34.8	-1.5	↓
10 – 14 oed	46.1	42.0	-4.1	↓
15 – 19 oed	21.4	23.0	+1.6	↑
20 – 24 oed	3.8	7.8	+4.0	↑
25 – 29 oed	3.4	4.9	+1.5	↑
30 – 34 oed	2.8	3.3	+0.5	↑
35 – 39 oed	2.6	3.1	+0.5	↑
40 – 44 oed	2.7	2.6	-0.1	↓
45 – 49 oed	2.8	2.4	-0.4	↓
50 – 54 oed	2.7	2.4	-0.3	↓
55 – 59 oed	2.6	1.9	-0.7	↓
60 – 64 oed	2.1	1.8	-0.3	↓
65 – 69 oed	2.9	1.7	-1.2	↓
70 – 74 oed	2.3	1.4	-0.9	↓
75 – 79 oed	2.6	2.0	-0.6	↓
80 oed +	2.2	1.8	-0.4	↓
Cyfanswm	10.0	9.3	-0.7	↓

Mae'r grwpiau oedran hŷn yn colli eu sgiliau neu'n symud i ffwrdd. Mae'r bobl yn y grwpiau oedran iau naill ai'n meithrin sgiliau yng Nghasnewydd, wedi elwa ar addysg Gymraeg, neu'n symud i Gasnewydd â sgiliau iaith Gymraeg. Os yw'r duedd hon yn parhau, yn yr hirdymor bydd yn arwain at dwf yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd.

Mae'n debygol y ceir cipolwg mwy cywir o nifer bresennol y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015 sy'n gofyn am y gallu i siarad Cymraeg. Yn y data hyn, dim ond 6% o'r boblogaeth a samplwyd a nododd y gallent siarad Cymraeg. Mae'r ffigur yn nes at y 4% o gyfanswm y boblogaeth yn yr ysgol a roddwyd gan CSCA.

Amcanestyniadau o'r ffigurau ar gyfer disgyblion mewn addysg Gymraeg yng Nghasnewydd

Mae'r tabl isod yn cyfuno'r data diweddaraf o'n ffigurau cyfrifiad ysgolion o hydref 2016/17 gyda'r amcanestyniad ysgolion diweddaraf o ffigurau CYBLD (Mehefin 2016). Mae ein ffigurau amcanestyniad presennol yn awgrymu y bydd gostyngiad bach yn nifer y disgyblion ysgol gynradd dros y 5 mlynedd nesaf, gyda thwf cyffredinol oherwydd twf cadarn yn yr ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, o ystyried bod ein ffigurau cyfrifiad diweddaraf ar gyfer blwyddyn academiaidd 16/17 eisoes yn uwch na blwyddyn 17/18, mae tystiolaeth gynyddol sy'n awgrymu y gall ein hamcanestyniadau danamcangyfrif y galw am addysg Gymraeg yng Nghasnewydd.

	2016/17*	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Ysgol Gymraeg Casnewydd	305	290	288	284	284	282
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	186	168	163	158	153	147
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	128	146	164	163	174	181
Cyfansymiau Disgyblion Cynradd	619	604	615	605	611	610
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed **	81	135	210	303	396	463
Ysgol Gyfun Gwynllyw	234	217	179	149	92	50
Cyfansymiau Disgyblion Uwchradd	315	352	389	452	488	513
Cyfansymiau Disgyblion	934	956	1004	1057	1099	1123

*Mae ffigurau 2016/17 yn seiliedig ar gyfrifiad ysgolion hydref 2016 Cyngor Dinas Casnewydd

**Wedi'u haddasu i gyfrif am ddisgyblion sy'n dod o Sir Fynwy

Targed arfaethedig ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd

Er mwyn sicrhau na fydd twf mewn addysg Gymraeg yn gwastadu dros y pum mlynedd nesaf, rydym wedi pennu targed i gynyddu nifer y disgyblion yng Nghasnewydd sy'n derbyn addysg Gymraeg o 934 yn 2016/17, i 1,250 neu fwy yn 2022/23.

Mae hyn yn seiliedig ar lenwi pob lle yn nosbarthiadau derbyn y 3 ysgol gynradd Gymraeg. Mae'r siart isod yn dangos sut mae'r targed yn ceisio gwella ein maint carfanau presennol. Erbyn 2022 mae'r strategaeth hon, gan gydweithio â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), yn ceisio cynyddu nifer y plant mewn ysgolion cynradd Cymraeg 19.1% dros boblogaeth y garfan bresennol.

Mae hyn yn cynrychioli twf o 4% o'r boblogaeth oed ysgol i 5%.

Amcanestyniadau a tharged disgyblion mewn addysg Gymraeg

Nifer y disgyblion	2016/17	Amcanestyniad 2021/22	Targed 2021/22
Ysgolion Cynradd Cymraeg	619	610	737
% Ysgolion Cynradd Cymraeg	4.7%		5.3%
Ysgolion Uwchradd Cymraeg	315	513	513
% Ysgolion Uwchradd Cymraeg	3.2%		4.5%
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymraeg	934	1123	1250
% Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymraeg	4.0%		5.0%

Themâu ac amcanion iaith Gymraeg sy'n dod i'r amlwg

Mae'r strategaeth hon wedi nodi tair thema allweddol sy'n cwmpasu gweledigaeth Cyngor Dinas Casnewydd a'r targed ar gyfer y Gymraeg. Islaw'r themâu hyn y mae nifer o amcanion a gweithredoedd ynghlwm a fydd yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion yn well a mesur ein canlyniadau. Bydd yr adran hon yn cyflwyno'r themâu, yn amlinellu pam eu bod yn arwyddocaol ac yn manylu'r gweithredoedd y byddwn yn ceisio eu cyflawni dros gyfnod y strategaeth hon. Dilynr hyn gan gynllun gweithredu sy'n nodi'n glir sut y byddwn yn cyflawni'r rhain ac â phwy y byddwn yn ceisio partneru.

Y themâu rydym wedi'u nodi yw:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd
- Polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu,
- Defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ein strategaeth, roedd yn amlwg bod angen i ni gymryd dull mwy cyfannol ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd. Er bod cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn bwysig, dim ond rhan o'r ateb ydyw. Fel y gallwch weld, mae'r themâu hyn yn ymwneud â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â'r ffordd y defnyddir y Gymraeg, a'r hyn y gallwn ei wneud i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd gan y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chynnal eu sgiliau iaith yn eu cymunedau.

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd

Yn ogystal â chael cyswllt agos â chyflawni targed y strategaeth, mae'r thema hon hefyd yn cyfrannu at y nod uchelgeisiol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sef cyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r amcanion a gwmpesir dan y thema hon yn ceisio annog ymgysylltu â'r Gymraeg ym mhob adeg o fywyd unigolyn.

Dyma'r amcanion a nodwyd dan y thema hon:

- Hyrwyddo trosglwyddo iaith mewn teuluoedd
- Mynediad i addysg Gymraeg leol
- Cymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch - Sgiliau dwyieithog i bawb
- Mynediad i ddysgu Cymraeg i oedolion

1.1 Hyrwyddo'r arfer o drosglwyddo iaith mewn teuluoedd

Gellir cymryd yn ganiataol yn aml bod rhieni sy'n siarad Cymraeg i gyd yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. Mae hyn yn aml yn wir, ond nid bob amser.

Yn ôl Proffil Iaith Gymraeg Menter Iaith, yng Nghymru, y gyfradd y bydd dau riant sy'n siarad Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i'w plant yw 82%. Yng Nghasnewydd, 77% yw'r gyfradd. Yn 2001, y ffigur hwn oedd 47%, sy'n dangos cynnydd calonogol iawn (t.15 Proffil Iaith Gymraeg Menter Iaith Casnewydd (MIC) 2016).

Mae'r un adroddiad hefyd yn nodi cynnydd yn aelwydydd Casnewydd lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg – o 19% yn 2001 i 38% yn 2016 (t.15 Proffil Iaith Gymraeg Menter Iaith Casnewydd 2016). Mae'r rhieni hyn yn llai tebygol o drosglwyddo'r iaith i'w plant na theuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd, dros gyfnod y strategaeth hon, yn ceisio gweithio'n gadarnhaol gyda phartneriaid er mwyn nodi ffyrdd o fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg Gymraeg yn effeithiol mewn teuluoedd yng Nghasnewydd. Bydd yr ymgyrch hyrwyddo barhaus hon yn cynnwys creu a dosbarthu taflenni sy'n dangos manteision dwyieithrwydd a hefyd yn trafod pryderon cyffredin sydd gan rieni am addysg Gymraeg.

1.2 Mynediad i addysg Gymraeg leol

Mae ymrwymiad Cyngor Dinas Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant ac addysgol wedi'i osod yn fanwl yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (CSCA), a lansiwyd ochr yn ochr â'r Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd hon.

Mae'r weledigaeth a nodwyd yn CSCA 2017-20 fel a ganlyn:

“Yn rhinwedd ei aelodaeth o Gonsortia De-ddwyrain Cymru, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu safonau'r Gymraeg mewn addysg er mwyn sicrhau gweithlu dwyieithog medrus mewn Cymru ddwyieithog, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.”

Dros y 10 mlynedd diwethaf, bu twf cyson yn narpariaeth y cyngor o addysg Gymraeg. Erbyn hyn mae gan y ddinas dair ysgol gynradd Gymraeg ac ers mis Medi 2016, un ysgol uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd angen i'r cyngor wynebu heriau twf poblogaeth mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r CSCA yn ymrwmo'r cyngor i wella'r broses o fesur y galw am ddarpariaeth Gymraeg ac i ymateb i unrhyw dwf yn y galw. Mae'r ddogfen hefyd yn ymrwmo'r awdurdod lleol i ddylunio a gweithredu porth 'Dysgu a Gweithio yn Gymraeg' ar wefan y cyngor fel adnodd i ddysgwyr Cymraeg o bob oed a fydd hefyd yn cyfrannu at yr ymgrych gyffredinol, sef hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghasnewydd.

Mae disgyblion mewn ysgolion Saesneg yn dysgu Cymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol tan Flwyddyn 11. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o rieni disgyblion mewn addysg Gymraeg a Saesneg yn siarad Cymraeg ac mae angen y cyfle ar ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn agweddau eraill ar fywyd, gan gynnwys gweithgareddau chwarae a chwaraeon ac ati. Yn y cynllun gweithredu, rydym yn edrych ar fentrau cadarnhaol i bob disgybl ddefnyddio'r iaith, drwy gydweithio rhwng ysgolion, partneriaid sy'n cynnwys yr Urdd a Menter Iaith Casnewydd a rhoi mentrau ar waith megis y Siarter Iaith.

Mae angen i'r Gymraeg, a'i defnydd yng Nghasnewydd, fod yn gynhwysol ac yn agored. Wrth i'r Gymraeg ennill statws cyfartal yng Nghymru, bydd gwybodaeth am y Gymraeg a'r Saesneg yn dod yn fwyfwy pwysig ac yn ased yn economi Cymru yn y dyfodol.

Thema fynych o'n hymgyngoriad oedd bod angen i Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Casnewydd adlewyrchu poblogaeth y ddinas. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod pob cymuned yng Nghasnewydd yn cael ei chynnwys wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu estyn allan i gymunedau nad ydynt wedi ymwneud â'r Gymraeg yn fawr o'r blaen.

1.3 Cymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch - Sgiliau dwyieithog i bawb

Mae addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol er mwyn rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr y bydd eu hangen arnynt mewn gweithlu dwyieithog. Ar hyn o bryd, y tri darparwr addysg bellach ac uwch yng Nghasnewydd yw Ysgol Gyfun Gwynllyw, Coleg Gwent a Phrifysgol De Cymru.

Dros gyfnod y strategaeth hon, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyfarfod â rhanddeiliaid er mwyn trafod sut gellir hyrwyddo addysg bellach ac uwch Gymraeg ledled ardal yr awdurdod lleol. Bydd y grŵp hwn hefyd yn edrych ar y ffordd y gall Cyngor Dinas Casnewydd chwarae rôl gadarnhaol ac adeiladol wrth gynyddu nifer yr athrawon, gweithwyr ieuencid ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n siarad Cymraeg er mwyn hwyluso'r dasg o ehangu addysg ôl-16 Gymraeg.

1.4 Mynediad i ddysgu Cymraeg i oedolion

Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn golygu y dylem wneud dysgu Cymraeg yn fwy hygyrch i bawb. Ar hyn o bryd, y prif ddarparwr cyrsiau Cymraeg i oedolion yw Coleg Gwent, y mae ei ffigurau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2015-2016 yn nodi bod 154 o ddysgwyr Cymraeg sy'n oedolion o ardal Casnewydd. Bydd hyrwyddo addysg oedolion yn cael ei gynnwys yn y 'Porth Addysg Gymraeg' a ddisgrifiwyd uchod, a bydd yr awdurdod yn ymgysylltu â phartneriaid megis Coleg Gwent er mwyn nodi ffyrdd y gallwn gydweithio er mwyn cynyddu ffigurau dysgwyr sy'n oedolion.

Thema 2: Polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu

O dan y thema hon mae Cyngor Dinas Casnewydd yn myfyrio ar y rhwymedigaethau statudol sydd arno i'r Gymraeg, sut y gellir ei chefnogi drwy swyddogaethau pob dydd y mae'r awdurdod eisoes yn ymgymryd â nhw a sut y gellir ei hyrwyddo yng ngweithlu'r cyngor. O ganlyniad, y ddau amcan dan y thema hon yw:

- Prif-ffrydio'r Gymraeg ym mholisi'r cyngor
- Cymraeg yng ngweithlu'r cyngor

Dan yr amcan cyntaf, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i sicrhau ein bod yn rhannu arfer da, yn fewnol drwy grwpiau megis Grŵp Gweithredu'r Gymraeg, ond hefyd yn fwyfwy gyda phartneriaid allanol. Hefyd, mae'n rhaid i ni sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn ein Hasesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb. O dan ein hail amcan, mae angen i ni ymgysylltu'n well â'r gweithlu mewn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac â dysgu'r iaith neu ddefnyddio ymadroddion Cymraeg bach yn y gweithle.

2.1 Prif-ffrydio'r Gymraeg ym mholisi'r cyngor

Rydym yn awyddus i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth a delwedd Casnewydd. Mae hunaniaeth gorfforaethol y cyngor yn ddwyieithog fel y mae hunaniaeth Casnewydd drwy Briffddinas-Ranbarth Caerdydd, Casnewydd: Dinas Democratiaeth, Dinasoedd Mawr y Gorllewin a mentrau rhanbarthol eraill.

Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod asesiadau systematig ar waith er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol pan fydd polisiau newydd yn cael eu llunio neu eu diwygio. Fodd bynnag, gan ei bod bellach yn ofynnol i'r gwasanaethau a gynhelir ar ein rhan fodloni'r un Safonau, mae cyfle i gael effaith gadarnhaol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a chreu amgylchedd sy'n fwy ymwybodol o'r Gymraeg.

Wrth i sefydliadau statudol eraill Casnewydd roi Safonau'r Gymraeg ar waith a dod yn weithredol dan Safonau'r Gymraeg, bydd angen cynyddol i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Prifysgol De Cymru, ledled pob sector, er mwyn sicrhau ein bod nid yn unig yn rhannu arfer da, ond yn archwilio'r posibilrwydd o gydlynu ein hymdrechion wrth hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a'u rhoi ar waith, gan leihau gwastraff a chynyddu effaith i'r eithaf.

2.2 Cymraeg yn y cyngor a'r gweithlu

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn weithgar wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y cyngor, er budd staff yn ogystal â'n cwsmeriaid. Mae ein cynllun cyfathrebu Cymraeg yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith ac ymgysylltu â hi, yn ogystal â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff a rhaglenni dysgu iaith - o hyfforddi pobl i ddefnyddio cyfarchion dwyieithog i annog staff i ddilyn cyrsiau dysgu Gymraeg hirdymor drwy'r cyngor.

Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn ceisio datblygu'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig i staff ymhellach o ran gwella eu sgiliau Gymraeg, yn enwedig aelodau o staff sydd eisoes â sgiliau Gymraeg canolradd neu uwch.

Thema 3: Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod y rôl sydd ganddo wrth normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg, yn ogystal â deall bod y Gymraeg yn iaith fyw a bod yn rhaid ei hyrwyddo yn y gymuned ehangach. O dan y thema hon, byddwn yn canolbwyntio, nid yn unig ar hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaethau iaith Gymraeg rydym yn eu cynnig, ond sut y gallwn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i feysydd ein dylanwad uniongyrchol hefyd drwy gydweithio'n agosach â'r rhanddeiliaid perthnasol.

Yr amcanion strategol o dan y thema hon yw:

- Defnyddio'r Gymraeg fel dinesydd
- Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Defnyddio'r Gymraeg yn ddigidol

3.1 Defnyddio'r Gymraeg fel dinesydd

Mae Safonau'r Gymraeg yn rhoi'r hawl i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus. Y Cyngor yw'r corff cyhoeddus lleol cyntaf i fod yn destun y Safonau ac, o ystyried cwmpas mawr swyddogaethau'r cyngor, mae hyn wedi creu ardal eang o fywyd cyhoeddus sydd â chynnig Gymraeg cadarnhaol. Wrth i'r safonau ehangu i gynnwys sefydliadau eraill, mae gan y cyngor rôl i feithrin hyder y cyhoedd yn ein gwasanaethau Gymraeg ein hunain ac wrth weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a fydd hefyd yn gorfod cynnig gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.

Dros gyfnod y strategaeth hon, bydd y cyngor yn ceisio hyrwyddo'i wasanaethau dwyieithog ei hun yn well, gan weithio tuag at gynyddu ymwybyddiaeth a hyder y cyhoedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru.

Yn ein rôl arwain yng Nghasnewydd, byddwn yn sgwrsio â sefydliadau partner fel Casnewydd Fyw, sefydliadau chwaraeon fel Dreigiau Casnewydd Gwent a Chymdeithas Bêl-droed Cymru, a sectorau eraill ynglŷn â chynyddu gwelededd y Gymraeg yng Nghasnewydd. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o helpu sefydliadau cymunedol i gyrchu gwasanaethau cyfieithu er mwyn creu deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog yng Nghasnewydd, gan fod Safonau'r Gymraeg ond yn caniatáu i ni arddangos deunyddiau dwyieithog.

3.2 Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

Er mwyn i iaith ffynnu, mae'n rhaid iddi gael ei defnyddio'n gymdeithasol. Ar hyn o bryd yng Nghasnewydd, mae problemau gan nad oes gan ddysgwyr y cyfle i gymdeithasu yn Gymraeg a defnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn bennaf oherwydd nifer isel y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas. Prin iawn yw'r sefyllfaoedd lle mae rhywun yn teimlo'n rhydd i ddechrau sgwrs yn Gymraeg yng Nghasnewydd os yw'n dymuno gwneud hynny.

Mae sefydliadau fel Menter Iaith Casnewydd yn hyrwyddo sesiynau anffurfiol, megis Siop a Siarad lle mae pobl yn siarad Cymraeg ac yn ei hymarfer yn gymdeithasol. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y cyngor yn cymryd camau i fapio'r gweithgareddau cymdeithasol sydd ar gael i oedolion, pobl ifanc a phlant, a rhannu gwybodaeth am y digwyddiadau ar-lein.

Byddwn hefyd yn cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned drwy weithio mewn partneriaeth a chwilio am y cyfleoedd ariannu sydd ar gael mewn sefydliadau.

3.3 Defnyddio'r Gymraeg yn ddigidol

Wrth i'r cyngor geisio cynyddu ei bresenoldeb ar-lein ac annog ymgysylltu â'r cyhoedd ar-lein, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth gynyddol hon.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynyddu ei ddefnydd o lwyfannau amlgyfrwng ac yn ymwybodol o'r angen i gael presenoldeb cwbl ddwyieithog. Mae'r awdurdod eisoes yn mynd ati i weithio er mwyn gwella dwyieithrwydd ein gwefan, gan wella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i siaradwyr Cymraeg.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn creu deunyddiau Cymraeg, ac yn edrych ar unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o ddeunyddiau sy'n berthnasol i Gasnewydd a phlant a phobl ifanc, a lle y gallwn gyfrannu.

Wrth gadw at Safonau'r Gymraeg, bydd gan yr awdurdod rôl wrth greu galw am feddalwedd â gallu dwyieithog neu amlieithog. Bydd hyn yn cyfrannu at greu marchnad sy'n fwy cadarnhaol am y Gymraeg ac sy'n fwy ymwybodol o anghenion sefydliadau dwyieithog a siaradwyr Cymraeg.

Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Cyngor Dinas Casnewydd 2017-2022

Cynllun Gweithredu

(Mae enwau a byrfoddau sefydliadau partner ar dudalen 18 isod.)

1 Cynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg		
Amcan	Cam Gweithredu	Y cyngor a phartneriaid posibl
1.1 Trosglwyddo iaith mewn teuluoedd	<p>1.1.1 Cynnull grŵp i edrych ar y ffordd orau o hyrwyddo'r dasg o drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghasnewydd, gan dargedu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol</p> <p>1.1.2 Creu a chyhoeddi gwybodaeth er mwyn arddangos manteision dwyieithrwydd</p>	<p>Gwasanaethau Addysg</p> <p>MIC, MYM, CiB, Gwasanaethau Addysg</p>
1.2 Mynediad i addysg Gymraeg leol	<p>1.2.1 Datblygu porth 'Dysgu, Chwarae a Gweithio' yn Gymraeg ar wefan y cyngor fel adnodd mynediad i bopeth Cymraeg yng Nghasnewydd</p> <p>1.2.2 Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant Cymraeg a'u hyrwyddo</p> <p>1.2.3 Nodi unrhyw grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg Gymraeg a thargedu gweithgareddau hyrwyddo drwy ymgyrch gyfathrebu amlasiantaethol sy'n gysylltiedig â manteision gwybodaeth ddwyieithog</p> <p>1.2.4 Cynnal darpariaeth trochi i hwyrddyfodiaid, h.y. plant sydd am ymuno ag addysg Gymraeg ar ôl Blwyddyn 3</p> <p>1.2.5 Cynnull grŵp i edrych ar y ffordd orau o roi gwybod i weithwyr proffesiynol am fanteision dwyieithrwydd, a chael gwared ar rwystrau mewn canfyddiad megis dwyieithrwydd neu amlieithrwydd fel rwystr i ddatblygiad plant</p> <p>1.2.6 Cefnogi menter Siarter Iaith Llywodraeth Cymru mewn ysgolion Cymraeg er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, ac archwilio'r posibiladau o'i chyflwyno i ysgolion Saesneg yng Nghasnewydd</p>	<p>Gwasanaethau Addysg</p> <p>Gwasanaethau Addysg, Dechrau'n Deg, MYM</p> <p>Gwasanaethau Addysg, Dechrau'n Deg, MYM, MIC, SEWREC</p> <p>Addysg, yr ysgolion Cymraeg</p> <p>MIC, Yr Urdd, CiB, MIM</p> <p>Addysg, Gwasanaeth Cyflawni Addysg</p>
1.3	1.3.1 Hyrwyddo'r cyfrwng Gymraeg fel dewis ôl-16 neu addysg bellach naturiol drwy'r porth Dysgu,	Addysg, Coleg Gwent,

Cymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch - Sgiliau dwyieithog i bawb	<p>Chwarae a Gweithio yn Gymraeg a'r ymgyrchoedd cysylltiedig</p> <p>1.3.2 Cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn addysg Saesneg drwy bartneriaethau â'r ysgolion Cymraeg yng Nghasnewydd</p> <p>1.3.3 Cynnull Grŵp i edrych ar ddulliau partneriaeth o weithredu i gynyddu nifer yr athrawon, yr ymarferwyr blynyddoedd cynnar, y gweithwyr ieuencid a'r gweithwyr gofal ac ati sy'n siarad Cymraeg.</p>	<p>Ysgolion Cymraeg</p> <p>Addysg, yr ysgolion Cymraeg</p> <p>Addysg, yr ysgolion Cymraeg</p>
1.4 Mynediad i Ddysgu Cymraeg i Oedolion	<p>1.4.1 Hyrwyddo dysgu Cymraeg i oedolion drwy'r porth Dysgu, Chwarae a Gweithio yn Gymraeg, ac yng ngweithle Cyngor Dinas Casnewydd (CDC), a chyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	<p>Coleg Gwent</p>

2 Polisi a chynllunio gweithlu'r cyngor		
Amcan	Cam Gweithredu	Y cyngor a phartneriaid posibl
2.1 Prif-ffrydio'r Gymraeg ym mholisi'r cyngor	<p>2.1.1 Normaleiddio'r Gymraeg ym mhenderfyniadau'r cyngor drwy ddefnyddio Asesiadau o Effaith</p> <p>2.1.2 Rhannu arfer da ar asesu'r effaith ar y Gymraeg â phartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)</p> <p>2.1.3 Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o frand Casnewydd drwy'r Ddinas-Ranbarth, Casnewydd: Dinas Democratiaeth, Dinasoedd Mawr y Gorllewin a mentrau rhanbarthol eraill.</p>	<p>Pob maes gwasanaeth</p> <p>CDC, BGC</p> <p>CDC, BGC</p>
2.2 Cymraeg yng ngweithlu'r cyngor	<p>2.2.1 Hyrwyddo cynnwys staff yn y Gymraeg drwy hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a thrwy gynllun cyfathrebu er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle</p> <p>2.2.2 Prif-ffrydio'r gwaith o gynllunio sgiliau Cymraeg staff drwy Gynllun Datblygu Gweithlu'r cyngor</p> <p>2.2.3 Llunio cynllun hyfforddi a datblygu o gwmpas staff â sgiliau Cymraeg canolradd ac uwch er mwyn i bob unigolyn gael y cyfle i wella ei sgiliau</p> <p>2.2.4 Llunio cynllun hyfforddi a datblygu o gwmpas staff rheng flaen er mwyn i bob unigolyn gael y cyfle i</p>	<p>Pob maes gwasanaeth</p> <p>Adnoddau Dynol</p> <p>Adnoddau Dynol</p> <p>Gwasanaethau Cwsmeriaid ac</p>

	ddatblygu ei sgiliau	Adnoddau Dynol
--	----------------------	----------------

3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd		
Amcan	Cam Gweithredu	Y cyngor a phartneriaid posibl
3.1 Defnyddio'r Gymraeg fel dinesydd	<p>3.1.1 Er mwyn normaleiddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau yn y gymuned, bydd y cyngor yn ystyried rhoi mynediad cyfyngedig i sefydliadau partner a chymunedol i'r gwasanaethau cyfieithu ar gyfer deunyddiau cyhoeddusrwydd</p> <p>3.1.2 Magu hyder y cyhoedd a'i gwneud yn arferol i bobl ddewis gwasanaethau Cymraeg yng Nghyngor Dinas Casnewydd drwy hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg</p> <p>3.1.3 Sgwrsio â sefydliadau partner â diddordeb ynghylch cynyddu gwelededd y Gymraeg yng Nghasnewydd, e.e. CBDC, Dreigiau Gwent, Casnewydd FYW, y Bont Gludo, atyniadau megis Gwlyptiroedd Casnewydd.</p>	<p>CDC</p> <p>CDC, MIC</p> <p>CDC a phartneriaid</p>
3.2 Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol	<p>3.2.1 Cynnull grŵp er mwyn mapio'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yn Gymraeg i blant a phobl ifanc gan yr amrywiaeth o ddarparwyr. Chwilio am gyfleoedd i ymestyn y ddarpariaeth drwy gydweithio, cyfleoedd ariannu eraill ac ati a hyrwyddo'n eang.</p> <p>3.2.1. Gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol yng nghanol y ddinas drwy nodi siaradwyr Cymraeg rheng flaen a siopau a chaffis lle mae'r staff yn siarad Cymraeg a defnyddio'r logos oren 'Cymraeg'.</p> <p>3.2.3 Ymchwilio ymhellach i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn lleol</p>	<p>Datblygu Chwarae CDC, MIC, Yr Urdd,</p> <p>CDC, MIC, Coleg Gwent, Friars Walk</p> <p>CDC, Comisiynydd y Gymraeg Cyngorau Cymuned</p>
3.3 Defnyddio'r Gymraeg yn ddigidol	<p>3.3.1. Dylanwadu ar ddarparwyr drwy ymrwymo i brynu systemau meddalwedd a chaledwedd ac ati lle y gellir dewis iaith a defnyddio'r Gymraeg</p> <p>3.3.2 Cefnogi mentrau cymunedol i greu a dosbarthu deunyddiau digidol Cymraeg sy'n berthnasol i Gasnewydd, neu ddeunyddiau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd, er mwyn ei gwneud yn berthnasol i bobl yng Nghasnewydd</p>	Pob maes gwasanaeth

Partneriaid Lleol

Er mwyn cyflawni'r amcanion a osodwyd yn y cynllun gweithredu uchod, bydd angen i ni weithio'n agos gyda rhanddeiliaid perthnasol ledled Casnewydd. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried bod y partneriaid canlynol yn allweddol er mwyn cyflawni gweledigaeth yr awdurdod.

Menter Iaith Casnewydd (MIC)

Prif nod Menter Iaith Casnewydd yw cynyddu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefnidir ddefnyddio neu ddysgu'r Gymraeg yn eu cymuned leol. Mae Menter Iaith wedi datblygu nifer o brosiectau arloesol yn ardal yr awdurdod lleol sy'n helpu i sbarduno datblygiad cymunedol yn seiliedig ar y Gymraeg.

Yr Urdd

Mae'r Urdd, fel mudiad ieuenctid Cymraeg, yn canolbwyntio ar roi'r cyfle i bobl ifanc ddatblygu fel unigolion cyflawn. Yng Nghasnewydd, mae'r Urdd yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion Cymraeg, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion drwy gydol y flwyddyn. Yr Urdd yw prif drefnwr yr Eisteddfod flynyddol, ond mae hefyd yn trefnu gweithgareddau preswyl a chwaraeon i bobl ifanc.

Fforwm Iaith

Mae Fforwm Iaith Casnewydd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Nod y grŵp yw creu fforwm ar gyfer gwaith partneriaeth a lledaenu arfer da. Defnyddiwyd y fforwm gan Gyngor Dinas Casnewydd fel grŵp ffocws i drafod y strategaeth hon, ac mae llawer o'u sylwadau adeiladol wedi'u cynnwys yn y fersiwn terfynol hwn.

Coleg Gwent

Coleg Gwent yw unig goleg AB Casnewydd a phrif ddarparwr addysg Gymraeg i oedolion yn y sir. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r coleg er mwyn cyflwyno ein dosbarthiadau Cymraeg, ac mae'n debygol y byddwn yn gofyn i'r corff ddatblygu dosbarthiadau mwy pwrpasol eraill i'n siaradwyr canolradd ac uwch Cymraeg yn y dyfodol.

Mudiad Meithrin (MYM)

Mae Mudiad Meithrin yn fudiad gwirfoddol a dyma brif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar Cymraeg yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ei nod yw rhoi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar brofiadau blynyddoedd cynnar ac addysg. Mae'r sefydliad yn cyflogi 200 o staff yn genedlaethol, ac mae 1,500 o staff ychwanegol yn gweithio mewn Cylchoedd Meithrin ledled Cymru.

Cymraeg i Blant (CiB)

Mae Cymraeg i Blant yn brosiect newydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ariannu ac y mae Mudiad Meithrin yn ei gydlyn. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant oedran meithrin a all siarad Cymraeg. Mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni ar

fuddiannau bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg i blant mor gynnar ag sy'n bosibl, a manteision dewis addysg Gymraeg.

Ymgysylltu

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth rhwng 30 Hydref ac 31 Ionawr 2017 pan ddaeth Cyngor Dinas Casnewydd â'r ymgynghoriad ar Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd ddrafft y cyngor i ben. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio cymysgedd o ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda'r dull cyntaf yn cael ei gynnal ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a'i hyrwyddo drwy dudalennau Twitter a Facebook Cyngor Dinas Casnewydd.

Cafodd yr ymgynghoriad ar-lein gyfanswm o 99 o ymatebion a gofynnodd gyfres o gwestiynau ateb ie/na i'r ymatebwyr i weld a oeddent yn cefnogi gweledigaeth a themâu'r strategaeth neu'n cytuno â nhw. Yna rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle iddynt ymestyn ar eu hatebion a rhoi ymatebion mwy ansoddol.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghoriad wyneb yn wyneb â Grŵp Gweithredu'r Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd a Forum Iaith Casnewydd. Mae'r cyntaf yn cynnwys cynrychiolwyr Cymraeg o feysydd gwasanaeth amrywiol ledled yr awdurdod lleol sy'n cefnogi'r dasg o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn eu priod feysydd. Mae'r ail grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol amrywio sy'n hyrwyddo'r Gymraeg megis Menter Iaith Casnewydd, yr Urdd, penaethiaid y 4 ysgol Gymraeg leol, Coleg Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Mudiad Ysgolion Meithrin, a nifer o grwpiau cymdeithasol Cymraeg lleol eraill.

Rhoddwyd y cyfle i'r aelodau fynd i ddau ddigwyddiad ymgynghori neu gyfarfodydd unigol.

Ymatebion yr ymgynghoriad a lywiodd y Strategaeth hon a'r cynllun gweithredu. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym am yr angen i fod yn gynhwysol wrth hyrwyddo'r iaith mewn cymunedau, i greu mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg a'r angen i normaleiddio'r iaith yng Nghasnewydd.

Llywodraethu

Mae rhai trefniadau llywodraethu penodol eisoes ar waith ar gyfer rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith drwy Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd ac ar gyfer rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith. Caiff trefniadau llywodraethu eu rhoi ar waith ar gyfer y Strategaeth hon am gyfnod cychwynnol. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn er mwyn eu prif-frydio o fewn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor yn 2017, a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2018.

Gweithredu ac Adolygu

Mae'r Strategaeth hon yn cynnwys themâu, amcanion a chamau gweithredu. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am lawer o'r camau gweithredu hynny, ond bydd rhai ohonynt wedi'u neilltuo i sefydliadau eraill neu i ni fod yn gyfrifol amdanynt mewn partneriaeth ag eraill ac, fel y cyfryw, bydd yn rhaid cytuno arnynt â'r sefydliadau eraill hynny. Mae'r Cabinet yn cael adroddiad blynyddol am gynnydd y Gymraeg.

Gwerthuso

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, byddwn yn llunio Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn. Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth, byddwn yn asesu i ba raddau yr ydym wedi dilyn y

strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a bennwyd ganddi. Bydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol, yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael:

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;

(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd diwethaf er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Dogfennau Cyfeirio

Cyfrifiad Disgyblion Hydref 2016 (2016) Cyngor Dinas Casnewydd [AR-LEIN] Ar gael yn: <http://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/Transparency/Pupil-numbers.aspx> (Cyrchwyd: 02/02/2017)

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 1 Awst 2016) [AR-LEIN] Ar gael yn <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LocalAuthority-Gender-DetailedAgeGroups-2011Census> (Cyrchwyd 28/09/2016).

Proffil Iaith Gymraeg 2016 Menter Iaith Casnewydd (2016)

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Dinas Casnewydd Cyngor Dinas Casnewydd (2011) (Drafft 2017-2020)

Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2015-2016 Cyngor Dinas Casnewydd (2016)

NOMIS (2011) The Annual Population Survey Ar gael yn: <https://www.nomisweb.co.uk/articles/676.aspx>

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (seiliedig ar 2011) Ystadegau ar gyfer Cymru (2013). Ar gael yn: llyw.cymru/docs/statistics/2013/130723-local-authority-population-projections-2011-based-cy.pdf (Cyrchwyd 28/09/2016).

StatsCymru (2015) Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 – Iaith Gymraeg. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/2014-15> (Cyrchwyd: 28/09/2016)

StatsCymru (2012) Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a grwpiau oedran ehangach, cyfrifiad 2001 a chyfrifiad 2011. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census>

StatsCymru (2011) Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, Cyfrifiad 2011 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LocalAuthority-Gender-DetailedAgeGroups-2011Census> (Cyrchwyd: 28/09/2016)

Llywodraeth Cymru (2016) *Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)*